# 1. Trosolwg

## Beth ydym yn ei wneud

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad, rydym yn cyhoeddi ein penderfyniadau ar amddiffyn plant ar-lein. Rydym hefyd yn cyhoeddi fersiynau terfynol o'n canllawiau sy'n egluro beth mae angen i wasanaethau ar-lein ei wneud i gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelu plant. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cyhoeddi'r Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant, sy'n nodi'r camau rydym yn disgwyl i wasanaethau ar-lein eu cymryd i gadw plant yn ddiogel.

Mae plant yn y DU yn elwa o'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig ac maen nhw'n mwynhau treulio amser ar-lein am lawer o resymau, gan gynnwys dysgu, cyfeillgarwch, ac adloniant. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o blant wedi dod ar draws cynnwys a gweithgarwch niweidiol ar-lein. Mae Traciwr Profiad Ar-lein Ofcom yn dangos bod chwech o bob deg (59%) o blant 13-17 oed wedi dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys a allai fod yn niweidiol ar-lein dros gyfnod o bedair wythnos. Gall hyn effeithio'n ddifrifol ar eu llesiant meddyliol a chorfforol ac mae wedi'i gysylltu â marwolaethau rhai plant.

Sicrhau lefel uwch o amddiffyniad ar-lein i blant nag i oedolion yw un o amcanion y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu nodi yn y datganiad hwn yn sail i greu bywyd mwy diogel ar-lein i blant yn y DU. Maen nhw'n adeiladu ar y rheolau rydym eisoes wedi'u sefydlu i amddiffyn yr holl ddefnyddwyr, gan gynnwys plant, rhag niwed anghyfreithlon, fel amddiffyn plant rhag cael eu hudo a'u camfanteisio'n rhywiol. Hefyd maen nhw'n ategu'r rheolau am atal plant rhag dod ar draws pornograffi ar-lein. Rydym eisoes wedi dechrau annog cydymffurfiad â'r rheolau newydd hyn, gan gynnwys agor rhaglenni gorfodi.

Mae ein penderfyniadau'n adlewyrchu'r hyn rydym yn ei wybod am y risgiau i blant drwy ymchwil a thystiolaeth, a beth sy'n gweithio i'w cadw'n ddiogel. Mae ein Cofrestr Risgiau Plant yn casglu ynghyd oddeutu 550 o ffynonellau tystiolaeth unigol, gan gynnwys ffynonellau newydd a gafodd eu hawgrymu gan randdeiliaid wrth ymateb i'n hymgynghoriad. Drwy ein hymchwil, rydym wedi clywed gan dros 27,000 o blant a 13,000 o rieni. Rydym hefyd wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedodd plant wrthym mewn rhaglen ymgysylltu cydgynghorol a oedd yn cynnwys gweithdai ymgynghori a chyfweliadau gyda phlant ledled y DU. Rydym wedi adlewyrchu eu barn yn ein penderfyniadau ochr yn ochr â barn y cwmnïau, yr ymgyrchwyr diogelwch plant a sefydliadau eraill a ymatebodd i'n hymgynghoriad.

## Beth fydd yn newid

Mae'r pecyn hwn o ganllawiau a mesurau diogelwch yn gam pwysig ymlaen at greu bywyd mwy diogel ar-lein i blant yn y DU.

Wrth i wasanaethau ddechrau cyflwyno mesurau diogelwch yn unol â'r Codau, ni fydd plant yn gallu cael mynediad at safleoedd sy'n cludo'r mathau mwyaf niweidiol o gynnwys, gan ddechrau gyda gwasanaethau pornograffi. Gofynnir i oedolion ddilysu eu hoedran er mwyn cael gafael ar gynnwys sy'n gyfreithlon ond yn niweidiol i blant.

Mae disgwyl i blant weld gostyngiad yn faint o gynnwys niweidiol maen nhw'n dod ar ei draws ar-lein, o ganlyniad i wasanaethau'n cyflwyno prosesau i atal eu halgorithmau rhag argymell cynnwys niweidiol i blant a chymryd camau cyflym pan fyddan nhw'n dod yn ymwybodol o gynnwys o'r fath.

Dylai plant, a'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw, allu dibynnu ar delerau ac amodau clir, yn ogystal â phrosesau hygyrch i roi gwybod am gynnwys niweidiol. Wrth i wasanaethau fabwysiadu'r mesurau hyn, bydd defnyddwyr yn gweld newidiadau i'r wybodaeth a'r prosesau maen nhw'n eu defnyddio ar-lein. Bydd plant yn cael mynediad at offer sy'n rhoi mwy o reolaeth iddyn nhw dros eu profiadau ar-lein, a gwybodaeth gefnogol.

Mae'r mesurau diogelwch hyn yn seiliedig ar brosesau llywodraethu a rheoli risg da. Maen nhw'n ategu'r mesurau sydd eisoes mewn grym i ddiogelu pob defnyddiwr, gan gynnwys plant, rhag cynnwys anghyfreithlon – er enghraifft, gosodiadau defnyddwyr diofyn sy'n ei gwneud hi'n anoddach i oedolion gysylltu â phlant a chamfanteisio arnyn nhw.

Erbyn hyn, rhaid i bob gwasanaeth fod wedi cynnal asesiadau i benderfynu a ydyn nhw o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelu plant. Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o wasanaethau nad ydyn nhw'n defnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol yn dod o fewn cwmpas y pecyn rheoleiddio rydym yn ei gadarnhau heddiw.

Mae gan wasanaethau sydd o fewn cwmpas y dyletswyddau diogelwch plant tan 24 Gorffennaf 2025 i gwblhau a chofnodi asesiadau risg plant. Bydd hyn yn ategu'r asesiadau risg o gynnwys anghyfreithlon y mae gwasanaethau eisoes wedi'u cwblhau.

Fel rhan o'u hasesiadau risg i blant, rhaid i wasanaethau asesu'r risg o blant yn dod ar draws cynnwys niweidiol, gan gynnwys categorïau cynnwys sydd heb eu rhestru yn y Ddeddf. Rhaid iddyn nhw hefyd ystyried plant mewn gwahanol grwpiau oedran fel rhan o'u hasesiad risg.

Mae ein Proffiliau Risg Plant yn helpu gwasanaethau i ddeall y mathau o wasanaethau a'r swyddogaethau sy'n gallu bod yn arbennig o beryglus i blant. Mae ein Cofrestr Risgiau Plant yn rhoi gwybodaeth am sut mae risgiau o niwed i blant yn dod i'r amlwg ar-lein; a bydd ein Canllawiau ar Gynnwys Niweidiol i Blant yn helpu darparwyr gwasanaeth i ddehongli'r gwahanol gategorïau o gynnwys niweidiol.

Ar ôl cwblhau eu hasesiadau risg i blant, rhaid i wasanaethau roi mesurau diogelwch ar waith i liniaru'r risgiau i blant a nodir yn yr asesiadau hyn. Mae'r Codau'n cynnwys mesurau rydym yn disgwyl i wasanaethau eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau i blant, sy'n cynnwys:

- **Archwiliadau oedran cadarn.** Ar hyn o bryd, mae'n llawer rhy hawdd i blant gael gafael ar gynnwys niweidiol ar-lein. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau sydd â'r risg fwyaf ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i ddiogelu plant rhag y cynnwys hwn. Os oes gan wasanaethau ofynion oedran sylfaenol ac nad ydyn nhw'n defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant dan yr oedran hwnnw rhag defnyddio'r gwasanaeth, dylen nhw dybio bod plant iau ar eu gwasanaeth a chymryd camau priodol i'w hamddiffyn rhag niwed.
- **Algorithmau mwy diogel.** Ar hyn o bryd, argymhellion personol yw prif lwybr plant i ddod ar draws cynnwys niweidiol ar-lein. Bydd disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi nodi risg ganolig neu uchel o gynnwys o'r fath ffurfweddu eu halgorithmau i sicrhau nad yw plant yn gweld y cynnwys mwyaf niweidiol a'u bod yn cymryd camau priodol i'w diogelu rhag cynnwys niweidiol arall.
- **Cymedroli effeithiol.** Rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth fod â systemau cymedroli cynnwys i weithredu'n gyflym yn erbyn cynnwys sy'n niweidiol i blant pan fyddan nhw'n dod yn ymwybodol ohono.
- **Adroddiadau a chwynion gan ddefnyddwyr.** Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod eu prosesau'n hawdd eu cyrraedd a'u defnyddio, yn gwella tryloywder, ac yn cymryd camau priodol pan fydd defnyddwyr yn rhoi gwybod am gynnwys niweidiol.

- **Telerau gwasanaeth.** Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau wneud yn siŵr bod eu telerau ac amodau yn glir ac yn hawdd i blant eu deall.
- **Mwy o ddewis a chefnogaeth i blant.** Yn ogystal â phrosesau adrodd a chwyno hawdd eu defnyddio, mae angen offer a chymorth ar blant i'w helpu i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefnogol i blant a allai fod wedi dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, a gosodiadau diogelwch diofyn ar gyfer y gwasanaethau chwilio mwyaf. Disgwylir i blant gael y dewis i dderbyn neu wrthod gwahoddiadau i sgyrsiau grŵp lle gallan nhw ddod ar draws cynnwys niweidiol.
- **Llywodraethu ac atebolrwydd cryf.** Mae cadw plant yn ddiogel yn dechrau gyda llywodraethu da. Rydym yn argymell bod pob gwasanaeth yn enwi unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelwch plant. Mae'r mesurau eraill yn cynnwys adolygiad blynyddol gan uwch gorff o'r holl weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch plant; a Chod Ymddygiad i weithwyr sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Gall gwasanaethau gymryd mesurau eraill i amddiffyn plant rhag y rhai a nodir yn y Codau. Os ydyn nhw'n gwneud hynny, rhaid iddyn nhw fod yn barod i ddangos i ni fod y dewisiadau maen nhw wedi'u gwneud yn cyflawni'r dyletswyddau amddiffyn plant.

Ni all gwasanaethau wrthod cymryd camau i amddiffyn plant oherwydd ei fod yn rhy ddrud neu'n rhy anhwylus – mae amddiffyn plant yn flaenoriaeth. Bydd yn rhaid i'r holl wasanaethau weithredu, hyd yn oed y rhai lleiaf. Wrth argymell mesurau, mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn sicrhau bod y rheoliadau'n gymesur. Rydym yn cydnabod bod maint, gallu, a risgiau gwasanaethau'n amrywio'n eang, ac rydym wedi ystyried hyn yn ein hasesiadau o'r effaith. Rydym wedi argymell mesurau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau, gyda'r disgwyliadau mwyaf helaeth yn berthnasol i'r gwasanaethau mwyaf a'r rhai sydd â'r mwyaf o risg. Disgwylir i wasanaethau bach sy'n peri risg uchel i blant hefyd gymryd ystod eang o fesurau i fynd i'r afael â'r risg o niwed i blant. Mae'r Codau'n cydbwyso'r angen i ddiogelu plant â manteision bod ar-lein. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar hawliau plant ac oedolion, gan gynnwys eu hawliau i fynegiant rhydd a phreifatrwydd wrth benderfynu pa fesurau sy'n briodol ac yn gymesur, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

## Y camau nesaf

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant gwblhau asesiadau risg plant erbyn 24 Gorffennaf 2025.

O 25 Gorffennaf 2025 ymlaen, ar yr amod bod y Codau'n cwblhau'r broses Seneddol, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau gymryd y camau a nodir yn y Codau neu ddefnyddio mesurau effeithiol eraill i ddiogelu defnyddwyr. Byddwn yn ehangu ein pecyn cymorth digidol i ddarparwyr gwasanaethau i'w helpu i gwblhau asesiadau risg plant a chydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch plant.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cyhoeddi cynigion ar gyfer mesurau ychwanegol i amddiffyn defnyddwyr, gan gynnwys plant, rhag niwed anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant. Yn ein Datganiad ar Ddiogelu Pobl rhag Niwed Anghyfreithlon Ar-lein ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi y byddai ein hymgynghoriad nesaf yn cynnwys cynigion ar gyfer y canlynol:

- gwahardd cyfrifon pobl sy'n rhannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM);
- protocolau ymateb i argyfwng;
- cyfateb hashnodau i atal rhannu delweddau personol heb gydsyniad a chynnwys terfysgol

- mynd i’r afael â niwed anghyfreithlon gan gynnwys CSAM drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial.

Gallwn nawr gadarnhau y bydd y cynigion hyn hefyd yn cynnwys mesurau i amddiffyn plant rhag meithrin perthynas amhriodol drwy ddefnyddio dulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran. Byddwn hefyd yn nodi’r dystiolaeth ar ffrydio byw a’r risgiau y gall hyn eu hachosi i blant, a byddwn yn gwneud cynigion i leihau’r risgiau hyn. Ar ôl ymgynghori ar y mesurau hyn, byddwn yn cyhoeddi fersiynau newydd o’r Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon a’r Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant, a fydd yn cynnwys y mesurau newydd rydym yn penderfynu eu hargymell.

Erbyn diwedd 2025, byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau terfynol ar fesurau amddiffyn ehangach i ferched yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2025.

Byddwn yn parhau â’n gwaith i sefydlu gofynion ychwanegol sy’n canolbwyntio ar wella diogelwch, tryloywder ac atebolrwydd i rai o’r gwasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mwyaf poblogaidd (a elwir yn ‘wasanaethau wedi’u categoreiddio’). Dros haf 2025, ein nod yw cyhoeddi’r gofrestr o wasanaethau wedi’u categoreiddio yna symud ymlaen i roi hysbysiadau tryloywder drafft a therfynol iddyn nhw.

Dyma’r unig fersiwn o’n fframwaith i ddiogelu plant, a byddwn yn parhau i adolygu a datblygu ymhellach ein dull o sicrhau profiadau ar-lein sy’n fwy diogel a phriodol i oedran. Rydym yn rhagweld y byddwn yn diweddaru ein rheoliadau wrth i dystiolaeth newydd ymddangos am y risgiau i blant sy’n dod i’r amlwg a’r mesurau a fydd yn cadw plant yn fwyaf diogel ar-lein. Byddwn yn craffu ar asesiadau risg plant ac yn parhau i ymgysylltu’n agos â gwasanaethau er mwyn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut maen nhw’n cyflawni dyletswyddau diogelu plant.

Byddwn yn parhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth, gan ddefnyddio ffynonellau sy’n cynnwys ein hymchwil barhaus gyda phlant a’n hadroddiad ar ddefnyddio sicrwydd oedran a’i effeithiolrwydd, y byddwn yn ei gyhoeddi’r haf nesaf. Wrth ddatblygu ein fframwaith amddiffyn plant, byddwn yn parhau i ystyried blaenoriaethau strategol y Llywodraeth ar gyfer y drefn ar ôl iddyn nhw gael eu cwblhau.

Ochr yn ochr â’r datganiad hwn, rydym yn ymgynghori ar gynigion sy’n ceisio ehangu’r defnydd o rai o’r mesurau Cymorth i Ddefnyddwyr yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon i ystod ehangach o wasanaethau. Y rheswm am hyn yw ein bod nawr yn credu y byddai’n briodol i’r mesurau hyn fod yn berthnasol i rai gwasanaethau llai sy’n debygol o gael eu defnyddio gan blant. Rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid ar y cynigion hyn erbyn 22 Gorffennaf 2025.

# Llywio

Mae’r datganiad hwn yn cynnwys chwe chyfrol:

- Mae Cyfrol 1 (y gyfrol hon) yn nodi cwmpas y datganiad hwn, gan gynnwys cyflwyniad i’n dyletswyddau a’n swyddogaethau diogelwch ar-lein a’r dyletswyddau diogelwch plant (Adran 2), a’n dull rheoleiddio (Adran 3).
- Mae Cyfrol 2 yn ymwneud ag achosion ac effeithiau niwed i blant. Mae’n nodi ein dull gweithredu ac yn mynd i’r afael â sylwadau rhanddeiliaid mewn perthynas â’n Cofrestr Risgiau Plant, Proffiliau Risg Plant, ac Arweiniad ar Gynnwys sy’n Niweidiol i Blant. Mae ein Cofrestr derfynol o Risgiau i Blant a’n Canllawiau ar Gynnwys sy’n Niweidiol i Blant yn cael eu cyhoeddi fel dogfennau ar wahân.
- Mae Cyfrol 3 yn ymwneud â llywodraethu a rheoli risg. Rydym yn egluro pam mae llywodraethu a rheoli risg da yn sylfaenol bwysig ar gyfer diogelwch ar-lein ac rydym yn nodi

ein casgliadau mewn perthynas â'r Canllawiau Asesu Risg Plant, sy'n cael eu cyhoeddi fel dogfen ar wahân ac sy'n ymgorffori ein Proffiliau Risg terfynol ar gyfer Plant.

- Mae Cyfrol 4 yn ymwneud â'r mesurau rydym yn argymell y dylai gwasanaethau eu rhoi ar waith i gadw plant yn ddiogel ar-lein. Mae'r mesurau hyn yn ffurfio ein Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant, sy'n cael eu cyhoeddi fel dogfennau ar wahân. Ceir dau God Ymarfer – un ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ac un ar gyfer gwasanaethau chwilio.
- Mae Cyfrol 5 yn cynnwys manylion y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn ein hasesiad economaidd, ein fframwaith cyfreithiol, ein hasesiadau effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, ein crynodeb o fesurau ychwanegol a gynigir gan randdeiliaid, a'n rhestr termau.
- Mae Cyfrol 6 yn nodi ein cynigion i ehangu'r defnydd o rai o'r mesurau Cymorth i Ddefnyddwyr yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon i ystod ehangach o wasanaethau ac mae'n rhoi manylion am sut i ymateb.